



Papur tystiolaeth ar gyfer y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer Craffu Cyffredinol ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

14/11/2024

Gwybodaeth a ddarparwyd i helpu'r Pwyllgor cyn i'r Gweinidog fod yn bresennol ar gyfer Gwaith Craffu Cyffredinol ar 5 Rhagfyr.

Cynnwys

1. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.....	3
2. Clefydau Anifeiliaid.....	4
3. Lles anifeiliaid.....	6
4. Strategaeth Bwyd Cymunedol.....	8
5. Rheoliadau llygredd amaethyddol.....	9
6. Pysgodfeydd.....	11

1. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

1. Disgwylir i mi ddiweddarau'r Senedd ar 25 a 26 Tachwedd ar Amlinelliad Cynllun wedi'i ddiweddarau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyhoeddi Amlinelliad Cynllun wedi'i ddiweddarau.
2. Mae Amlinelliad y Cynllun yn seiliedig ar benllanw ymgysylltu helaeth â'r Bwrdd Crwn Gweinidogol, y Grŵp Swyddogion a'r Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon. Mae hyn wedi cynnwys adolygu agweddau technegol pob Gweithredu Cyffredinol a gofynion y cynllun yn unigol ac yn ei gyfanrwydd yn seiliedig ar fframwaith haen Gyffredinol i bawb, gyda Chamau Gweithredu Dewisol a Chydweithredol ychwanegol i'r rhai sy'n dewis gwneud mwy. Roedd y Panel Carbon yn gyfrifol am ystyried y dystiolaeth ar gamau ychwanegol ac amgen i atafaelu carbon y gellid ei gynnwys yn y Cynllun.
3. Mae'r Amlinelliad Cynllun hwn yn nodi safbwynt interim sy'n ganlyniad trafodaethau a chytundeb gyda'r Bwrdd Crwn hyd yn hyn. Nid dyma'r Cynllun terfynol. Mae'r newidiadau a wnaed yn mynd i'r afael ag anghenion ffermwyr, wrth gyflawni amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru), yn ogystal ag ymrwymïadau hinsawdd a natur.
4. Bydd Amlinelliad y Cynllun yn cael ei ddefnyddio i gynnal dadansoddiad economaidd wedi'i ddiweddarau ac asesiad effaith i bennu effeithiau ar ystod o agweddau amaethyddol, amgylcheddol a chymdeithasol.
5. Bydd y Bwrdd Crwn Gweinidogol a Gweithgor Swyddogion yn parhau i adolygu manylion ychwanegol am y Camau Gweithredu, gofynion y cynllun a'r prosesau gweinyddol.
6. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'n derfynol ar y cynllun yr haf nesaf ar sail tystiolaeth, gan gynnwys y dadansoddiad economaidd a'r asesiad effaith unwaith y bydd y Ford Gron wedi ei ystyried.

2. Clefydau Anifeiliaid

TB Buchol

7. Mae'r Grŵp Cyngori Technegol TB wedi cyfarfod yn rheolaidd ers ei sefydlu ym mis Ebrill, gan gynnwys cyfarfod â rhanddeiliaid yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf. Yn eu cyfarfod ym mis Hydref, adolygodd y Grŵp bolisiau adweithyddion amhendant a chlywed gan undebau ffermio, partneriaid cyflenwi milfeddygol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Mae rhaglen waith i'r dyfodol yn cael ei datblygu.
8. Yn dilyn cyngor gan y Grŵp, cyhoeddwyd newidiadau i ladd ar y fferm ym mis Ebrill a monitro hyn ochr yn ochr â'r diwydiant.
9. Ym mis Medi, cyhoeddodd Datganiad Ysgrifenedig aelodaeth Bwrdd y Rhaglen Dileu TB. Mae gan y Bwrdd gyfoeth o arbenigedd ymarferol a phrofiad uniongyrchol o TB buchol. Mae'r undebau ffermio a Chymdeithas Milfeddygol Prydain (BVA) hefyd yn cael eu cynrychioli. Bydd y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr. Blaenoriaeth ar unwaith fydd adolygu gwelliannau i gyfathrebu ac ymgysylltu â ffermwyr a milfeddygon. Bydd y Grŵp Cyngori Technegol a Bwrdd y Rhaglen yn cydweithio i roi cyngor strategol i Lywodraeth Cymru.
10. Mae'r ystadegau TB buchol hirdymor o bob rhan o Gymru gyfan yn dangos cynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â TB, gydag achosion mewn buchesi newydd yn lleihau. "Rydyn ni'n cydnabod yn llawn bod y sefyllfa o ran TB yn amrywio ar draws gwahanol rannau o Gymru, a dyna pam rydyn ni'n targedu ein gweithredu.

Firws y Tafod Glas (BTV-3).

11. Ar 23 Medi 2024, daeth Gorchymyn Clefydau Egsotig (Cymhwyso a Diwygio Deddfiadau) (Cymru) 2024 i rym gan wneud diwygiadau i ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth. Mae hyn yn darparu dull mwy hyblyg, cymesur a seiliedig ar risg o reoli clefydau yng Nghymru, a fydd yn caniatáu i ddiwydiant barhau i weithredu mewn modd diogel.
12. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ym mis Tachwedd yn cadarnhau bod cyfyngiadau'r Tafod Glas wedi eu codi o'r ffermydd yr effeithiwyd arnynt yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag APHA, Sefydliad Pirbright, gweinyddiaethau eraill y DU a rhanddeiliaid y diwydiant i sicrhau ein bod yn barod i ddelio â bygythiad y Tafod Glas, gan gynnwys penderfyniadau pwysig fel rôl brechu da byw.

Lefelau risg Ffliw Adar Pathogenig lawn (HPAI).

13. Oherwydd y nifer cynyddol o achosion o adar gwyllt ym Mhrydain Fawr a dechrau'r tymor mudo, mae'r risg o HPAI mewn adar gwyllt a dofednod wedi cynyddu a rhagwelir y bydd lefelau risg yn cynyddu ymhellach dros y gaeaf. O ystyried ein bod yn y tymor mudo adar, gall lefelau risg newid a byddant yn cael eu hasesu'n rheolaidd.

Glwy Affricanaidd y Moch - Ymarfer Whitebeam (led-led Prydain)

14. Cymerodd swyddogion Llywodraeth Cymru ran mewn ymarferiad pen bwrdd i brofi pa mor barod yw'r llywodraeth am achosion o Glwy Affricanaidd y Moch ar safle moch masnachol ar raddfa fawr. Er mwyn nodi bylchau a chryfhau cynlluniau wrth gefn llywodraethau i ddelio ag achos sylweddol o glefyd anifeiliaid, bydd dogfen gwersi a ddysgwyd yn cael ei chreu.

3. Lles anifeiliaid

Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru (2021-26):

15. Rydym wrthi'n bwrw ymlaen â'n Cynllun Lles Anifeiliaid 5 mlynedd uchelgeisiol, sy'n cynnwys ymrwymadau o'r Rhaglen Lywodraethu. Mae adroddiadau ar gynnydd yn cael eu cyhoeddi yma: [Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#). Bydd adroddiad ar flwyddyn tri yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2025.

CCTV mewn lladd-dai:

16. Cafodd [Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai \(Cymru\) 2024](#) eu gosod ar 30 Ebrill. Daeth y gofynion i osod a gweithredu system CCTV i rym ar 1 Mehefin. Daw'r troseddau a'r pwerau i archwilio, atafaelu a gorfodi'r Rheoliadau i rym ar 1 Rhagfyr 2024.

Allforion byw:

17. Mae'r [Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid \(Allforion Da Byw\) 2024](#) yn gwahardd allforio gwartheg, defaid, geifr, moch a cheffylau byw o Brydain i'w lladd a'u pesgi. Rydym yn cefnogi'r gwaharddiad oherwydd bod allforio anifeiliaid i'w lladd neu eu pesgi yn ddiangen, a gallent gael eu lladd neu eu pesgi yn ddomestig. Mae [Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid \(Allforion Da Byw\) 2024](#) yn garreg filltir arall ac yn ategu'r Ddeddf drwy sefydlu pwerau gorfodi, troseddau a chosbau sy'n ymwneud â'r gwaharddiad ar allforio. Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2025.

Bod yn Fridiwr Cŵn ac yn Berchennog Cyfrifol.

18. Cynhaliwyd yr ail Uwchgynhadledd Perchnogaeth Cŵn Cyfrifol ar 24 Hydref gyda [Datganiad Ysgrifenedig](#) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd. Mae cyfres o ddigwyddiadau wedi'u cynnal trwy gydol 2024 sydd wedi hyrwyddo a gwreiddio gwaith a chamau gweithredu partneriaeth amlasiantaethol, yn benodol, gydag awdurdodau lleol, heddluoedd ac elusennau.

Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu

19. Daeth ein hymgyngghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid i ben ym mis Mawrth. Derbyniwyd dros 1,100 o ymatebion a chanlyniadau. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Trwyddedu Anifeiliaid Cymru

20. Mae prosiect [Trwyddedu Anifeiliaid Cymru](#) a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwefan a phorth newydd ar gyfer awdurdodau lleol, bridwyr a'r cyhoedd. Mae'r datblygiad hwn yn mynd law yn llaw ag ymdrechion i frwydro yn erbyn bridio anghyfreithlon a chodi safonau a gwella amodau. Mae'r prosiect wedi cefnogi 161 o ymchwiliadau yn ymwneud â bridio cŵn heb drwydded a 9 awdurdod lleol wrth weithredu 145 o warantau. Cydnabuwyd eu gwaith pwysig yn ddiweddar gyda Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig 'PawPrint' RSPCA.

4. Strategaeth Bwyd Cymunedol

21. Mae'r Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn cynnwys ymrwymiad i 'Ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru'.
22. Gweledigaeth y Strategaeth Bwyd Cymunedol yw 'creu elfen gref, fywiog a mwy amlwg, leol ar lawr gwlad i'r system fwyd, wedi'i gwreiddio mewn cymunedau ac o fudd i gymunedau.' Bydd hyn yn dechrau ail-greu elfen leol goll i'r system fwyd, gan gryfhau gweithgarwch a chysylltedd cyflenwadau bwyd lleol ac i ateb y galw am fwyd lleol. Gall adeiladu gwe gyfoethocach o weithgareddau a chysylltiadau bwyd lleol ond helpu i gryfhau gwytnwch y system fwyd i addasu i heriau modern system fwyd ehangach y DU ac yn rhyngwladol.

Dull Datblygu y Strategaeth Bwyd Cymunedol:

23. Mae'r egwyddorion canlynol yn arwain datblygiad y Strategaeth Bwyd Cymunedol:
 - Canolbwyntio ar ffurfio ffyrdd newydd o weithio drwy greu dull partneriaeth cydgysylltiedig parhaus ar draws Llywodraeth Cymru a chyda'r cyfranogwyr ar lefel leol allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector.
 - Darparu atebion galluogi a fydd yn cefnogi pennu a gweithredu cyfeiriad ar lefel leol. Bydd y Strategaeth yn osgoi dull cyfarwydddeb 'o'r brig i lawr' ac yn hytrach yn ysgogi creu mentrau lleol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion lleol.
 - Er mwyn i flaenoriaethau a nodau'r Strategaeth gael eu datblygu a'u hadnewyddu drwy broses barhaus o ymgysylltu a chydweithio i sicrhau bod y ffocws a'r cyfeiriad yn parhau i fod yn bragmatig a pherthnasol.
 - Cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol i ddarparu hygrededd ac atebolrwydd i'r Strategaeth, ac i helpu i fesur effaith.

5. Rheoliadau llygredd amaethyddol

24. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ffermwyr i gyflawni gwelliannau yn ansawdd ein dŵr, pridd ac aer, trwy wella rheolaeth maetholion, a chydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (y Rheoliadau), gan gynnwys y gofynion storio slyri. Camreoli slyri, sy'n gysylltiedig â phroblemau storio slyri, yw un o brif achosion llygredd amaethyddol, sydd ei hun yn un o brif achosion llygredd dŵr yng Nghymru.
25. Ym mis Ebrill 2024, ymrwymwyd £20m ar gyfer dau gynllun i gefnogi ffermwyr i gydymffurfio â'r Rheoliadau. Bydd y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maetholion a'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddion Iardiau, yn agor yn fuan. Mae hyn yn dod â chyfanswm ein cynnig i £52m i gefnogi buddsoddiadau seilwaith ar y fferm ers cyflwyno'r Rheoliadau. Gwnaeth dros 800 o ffermwyr gais am gymorth yn y ffenestri cais diweddaraf. Mae dyfarniadau grant gwerth £1.06m eisoes wedi'u derbyn o dan y cynllun Gorchuddion Iardiau ac mae mwy na 700 o ffermwyr, pob ymgeisydd cymwys, wedi cael gwahoddiad i symud ymlaen i gam nesaf NMIS a bydd angen iddynt gyflwyno eu ceisiadau llawn erbyn 9 Rhagfyr 2024.
26. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i lefel ofynnol o storio slyri i helpu ffermydd i reoli slyri yn briodol i atal llygredd amaethyddol. Mae'r problemau sy'n wynebu ffermwyr mewn perthynas â'r cyfnodau caeedig yn tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli tail wrth atal llygredd. Mae'r cyfnodau gwaharddedig yn seiliedig ar dystiolaeth a'u diben yw atal colledion gormodol o nitrogen a ffosfforws i ddŵr ar ôl gwasgaru tail yn ystod y cyfnodau hynny, pan fo twf cnydau'n gyfyngedig. Yn ystod y cyfnodau gwaharddedig, pan na fydd cnwd angen cymaint o faethynnau a bod mwy o law, mae risgiau trwytholchi a dŵr ffo yn cynyddu a gall olygu colli maethynnau yn sylweddol.
27. Mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau yn ei gwneud yn glir y gallai fod angen storio ychwanegol i gydymffurfio â gofynion eraill y Rheoliadau, er mwyn atal llygredd. Mae'r canllawiau'n nodi bod y cyfrifiad storio slyri *"yn darparu'r lleiafswm statudol ac nid yw'n ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol i'ch gallu i gydymffurfio â gofynion eraill y Rheoliadau. Dylid ystyried ffactorau perthnasol, megis a fydd y storfa yn gwbl wag cyn y cyfnodau caeedig a bydd darparu storfa ychwanegol i fynd i'r afael â'r risg o dywydd gwael yn atal lledaenu slyri yn dilyn torri silwair ddiwedd yr hydref a rhagfynegiadau o law yn y dyfodol."* Bydd faint o storio sydd ei angen yn dibynnu'n fawr ar arferion ffermio busnesau fferm unigol. Felly nid yw'r rheoliadau'n faich diangen ar ffermydd a allai weithredu gyda lefel is o storio (y lleiafswm statudol).
28. Er y gallai rhai ffermydd fod wedi wynebu anawsterau wrth gynllunio ar gyfer storfeydd slyri, mae awdurdodau cynllunio lleol wedi cyngori bod

cynllunio fel arfer yn cymryd tua 10-18 wythnos. Darparwyd cyfnod trosiannol o 174 wythnos mewn perthynas â storio slyri a'r cyfnodau caeedig, sy'n golygu y bydd gan y rhan fwyaf o ffermydd ddigon o amser i addasu. Fodd bynnag, i gydnabod yr anawsterau y mae ffermydd wedi'u hwynebu ers cyflwyno'r rheoliadau, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r Safonau Gwiriadwy Trawsgydymffurfio i ddarparu dull mwy cyfrannol, gan gydbwysu'r risg o lygredd i'r amgylchedd a gofynion gweinyddol a thechnegol y Rheoliadau.

29. Cyhoeddwyd y newidiadau hyn mewn Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 - Cyfnodau Gwaharddedig a newidiadau i'r Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio SMR1: Diogelu Dŵr. Mae'r Safonau Gwiriadwy Trawsgydymffurfio diwygiedig wedi'u cyhoeddi [yma](#).
30. Pan fydd tramgwyddo o ran y gofynion storio slyri, bydd y cyfnodau caeedig a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol yn dilyn y cyfnodau caeedig yn cael eu lleihau pan nodir y tramgwydd cyn 1 Awst 2025. Bydd hyn ond yn wir pan fodlonir y capasiti storio rheoleiddiol sy'n bodoli eisoes (fel y'i cyflwynwyd gan Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991 a'i gario ymlaen yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010) a bod tystiolaeth o fod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth ar gael.
31. Disgwylir i'r adolygiad o waith y Rheoliadau gael ei gomisiynu erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

6. Pysgodfeydd

Dull Strategol o Bysgodfeydd a Dyframaeth Cymru

32. Bu imi gadarnhau yn y Senedd ar 13 Tachwedd fy mwriad i nodi dull strategol o ymdrin â physgodfeydd a dyframaeth Cymru o fewn yr wythnosau nesaf.
33. Yn y cyfamser, rwy'n disgwyl i'n cyfeiriad yn y dyfodol aros fel y nodwyd yn flaenorol, gyda rheolaeth gynaliadwy yn ganolog iddo, a'n bod yn canolbwyntio ar gyflawni Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a mesurau rheoli addasadol. Popeth wedi'i gefnogi gan wyddoniaeth a thystiolaeth, a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i gyflawni yn unol â'n dyletswyddau statudol ac yn chwilio am gyfleoedd a mentrau i gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a thyfu. Bydd ein rowndiau ariannu drwy Gynllun Mor a Physgodfeydd Cymru wedi'u cynllunio i fod yn sail i'r holl flaenoriaethau i helpu i gyflawni'r canlyniadau yr ydym i gyd am eu gweld.

Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

34. Gwnaed cynnydd sylweddol gyda Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Cyhoeddwyd cynlluniau Cymru a Lloegr ar y cyd ar gyfer Draenogiaid Mor a Chregyn y Brenin ym mis Rhagfyr 2023 ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid i Gymru. Rhoddir y safbwynt diweddaraf ar y cynlluniau hyn isod.
35. Sefydlwyd Draenogiaid Môr - Grŵp Cynghori Draenogiaid Môr Cymru (WSBAG) ym mis Ionawr i roi cyngor i swyddogion ac Ysgrifennydd y Cabinet ar flaenoriaethu a gweithredu camau gweithredu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yng Nghymru. Hyd yn hyn, mae'r grŵp wedi cyfarfod chwe gwaith eleni ac wedi cytuno ar y camau blaenoriaeth canlynol i Gymru, yn cyd-fynd â nodau Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd Draenogiaid Mor:
 - Cryfhau ein sylfaen dystiolaeth i lywio sut rydym yn rheoli'r bysgodfa draenogiaid mor h.y. data ar daflu pysgod a physgota hamdden yn y parth Cymreig.
 - Deall manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pysgota draenogiaid môr mewn cymunedau arfordirol lleol yng Nghymru a sut y gellir gwneud y mwyaf ohonynt.
 - Adolygu'r tymor cau mwyaf priodol ar gyfer y stoc.
 - Ystyried y system awdurdodi gyfredol ar gyfer holl symudiadau'r Draenogiaid Mor yng Nghymru.
 - Adolygu rheoleiddio rhwydi mewndirol bas a rhwydi ar y lan i sicrhau bod digon o ddiogelwch ar waith ar gyfer pysgod mudol.
36. Mae'r grŵp eisoes wedi dechrau adolygu'r arfer o rwydo ar y lan ac mae swyddogion yn datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar y camau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer Cymru.

37. Cregyn y Brenin - Cafodd Grwp Cyngkori Cymru ar Gregyn y Brenin hefyd ei sefydlu ym mis Ionawr i gynghori swyddogion ac Ysgrifennydd y Cabinet ar flaenoriaethu a gweithredu camau y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd yng Nghymru. Hyd yma mae'r grŵp wedi cwrdd bum gwaith ac wedi cytuno ar y camau gweithredu Cynllun Rheoli Pysgodfeydd sy'n flaenoriaeth i Gymru:
- Adeiladu ar ddata monitro presennol cregyn y brenin yng Nghymru i lywio rheolaeth ac asesu statws stoc yn erbyn cynnyrch cynaliadwy uchaf neu brocsi.
 - Mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth o bwysigrwydd i Gymru i lywio gweithredoedd Cynllun Rheoli Pysgodfeydd a datblygu mesurau.
 - Adolygu rheoleiddio pysgota cregyn bylchog yng Nghymru ar hyn o bryd cyn datblygu fframwaith newydd o fesurau rheoli addasol. Efallai y bydd angen cymryd ymagwedd raddol gan ystyried mesurau fel:
 - Alinio mesurau yn eang ar draws ffiniau gweinyddol.
 - Atal gor-ecsbloetio yn y tymor byr cyn datblygu rheolau rheoli cynaeafu sy'n ymateb i statws stoc.
 - Lliniaru effeithiau amgylcheddol negyddol carthu cregyn bylchog.
 - Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i newid hinsawdd;
38. Mae'r grŵp wedi trafod y data sydd ar gael ar stociau cregyn y brenin yng Nghymru ac, er ei fod yn gwella, nid yw'n ddigonol eto i ddarparu asesiad o statws y stoc o'i gymharu â'i gynnyrch cynaliadwy uchaf neu fesur procsi. Felly, mae gweithredoedd y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd o reidrwydd yn arwain at gasglu data gwyddonol ychwanegol i asesu'r stoc yn erbyn cynnyrch cynaliadwy uchaf a llywio fframwaith newydd o fesurau rheoli i sicrhau bod y stoc yn cael ei bysgota'n gynaliadwy.
39. Mae'r grŵp wedi adolygu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer pysgota cregyn y brenin ym Mharth Economaidd Neilltuedig Cymru. Nodwyd newidiadau posibl i reoliadau gyda'r bwriad o greu fframwaith rheoli pysgodfeydd newydd o fesurau a chyflawni gweithredoedd Cynllun Rheoli Pysgodfeydd. Bydd angen ystyried effeithiau amgylcheddol ychwanegol pysgota cregyn bylchog hefyd mewn perthynas ag integreidd gwely'r môr a'r effeithiau ar y newid yn yr hinsawdd.
40. Mae swyddogion yn datblygu cynllun gweithredu i gyflawni'r camau tymor byr a hirdymor sy'n angenrheidiol i reoli stoc cregyn y brenin ym Mharth Economaidd Neilltuedig Cymru.
41. Crancod a Chimychiaid - Comisiynodd Llywodraeth Cymru Seafish i gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar gyfer y pysgodfeydd masnachol a hamdden. Dros y gwanwyn a'r haf eleni, gofynnwyd i randdeiliaid beth oedd cryfderau a gwendidau'r dulliau rheoli presennol yng Nghymru. Mae datblygu dealltwriaeth gref o'r hyn yr oedd ein rhanddeiliaid yn ei

deimlo'n bwysig yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ddechrau datblygu cynllun rheoli pysgodfeydd cyntaf Cymru yn unig ar gyfer crancod a chimychiaid.

42. Rydym yn disgwyl o'r hydref hwn i haf 2025 y byddwn yn casglu'r wybodaeth ar y bysgodfa ynghyd, gan gynnwys tystiolaeth wyddonol i'n helpu i lunio Cynllun Rheoli Pysgodfeydd drafft.⁵²
43. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Cyngori ar Grancod a Chimychiaid ym mis Hydref. Trwy ymgysylltiad a chynghor y grŵp, byddwn mewn sefyllfa i lunio cynllun drafft ac ymgynghori'n ffurfiol ar y cynllun. Ein nod yw cyhoeddi'r cynllun yn 2026, yn unol â'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd.

Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru

44. Daeth rownd pedwar y cyllid ar gyfer ceisiadau i ben ar 24 Mai 2024 gyda 34 cais wedi eu cyflwyno. Yn dilyn asesiad cam 1, dewiswyd 22 o geisiadau i fynd ymlaen i ail gam a cham olaf yr asesiad. O'r rhain, roedd 15 cais yn llwyddiannus a dyfarnwyd contractau gwerth cyfanswm o £493,036.59 iddynt.
45. Mae gwerthusiad o'r tair rownd gychwynnol wedi'i gaffael ac mae ar y gweill gan ddisgwyl yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2024.